Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

7 Mehefin 2016

Annwyl Rieni/Warcheidwad

Parthed: Gêm Cymru v Lloegr 16.06.16 – Pencampwriaeth Pêl-Droed Ewrop 2016

Rydym fel ysgol yn bwriadu manteisio ar y cyfle i ddathlu ein Cymreictod ar y diwrnod arbennig hwn. Rydym felly yn annog y disgyblion i wisgo gwisg anffurfiol gan gynnwys crysau coch i hyrwyddo lliw ein gwlad. Yn ogystal â hyn byddwn yn cynnal gweithgareddau pêl-droed yn ystod y bore felly byddai'n syniad da i'r disgyblion i wisgo trowseri / siorts ac esgidiau addas os gwelwch yn dda. Byddwn yn codi tâl o £1 am yr hawl a bydd yr arian hyn yn mynd tuag at gronfa'r ysgol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2017.

Bydd amserlen yr ysgol yn cael ei fireinio er mwyn sicrhau bod cyfle gan bob disgybl i wylio'r gêm fawr am 2.00yh. Byddwn fel cymuned ysgol gyfan yn ymgynnull yn y neuadd chwaraeon. Yn ystod y cyfnod hwn bydd cyfle i'r disgyblion ennill gwobrau Ewro 2016. Bydd hwn yn ddigwyddiad hapus ac yn gyfle i ni ddathlu ethos Cymreig yr ysgol.

Er mwyn sicrhau presenoldeb 100% gofynnwn yn daer arnoch i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol ar y diwrnod hwn. Gan fod ail hanner y gêm yn digwydd ar ôl 3.00yh, mae croeso mawr i chi fel rhieni i ymuno â'ch plentyn yn yr ysgol i wylio'r gêm. Os ydych serch hynny yn dymuno i wneud hyn gofynnir yn garedig i chi rhoi gwybod i'r ysgol o flaen llaw ar y cyfeiriad e-bost isod gan nodi enw a blwyddyn ysgol eich plentyn: cymruambyth@gartholwg.cymru.

Edrychwn ymlaen at y digwyddiad cyffrous hwn a chymeraf y cyfle i ddiolch i chi o flaen llaw am eich cydweithrediad parod.

Ymlaen Cymru, ymlaen!

Yn gywir

Mr Trystan Edwards
Prifathro

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

7 June 2016

Dear Parent/Guardian

Re: England v Wales 16.06.16 – 2016 European Football Championship

As a school we would like to take advantage of the opportunity to celebrate our Welsh heritage on this special day. We would therefore like our pupils to participate fully in the excitement of the occasion by making June 16th a non-uniform day where they are permitted to wear their own clothing including a Welsh team shirt or any other top in our national colour, red. Additionally, football based activities will be held during the morning requiring suitable trousers / shorts and footwear. We request a contribution of £1 from all pupils in keeping with the usual procedure for non-uniform days. The proceeds will contribute to whole school funds for the 2017 Urdd Eisteddfod.

The timetable will be amended to ensure that all pupils have an opportunity to watch the game at 2pm when we will meet as a whole school community in the sports hall. During this period there will be opportunities for the pupils to win Euro 2016 prizes. We hope this will be a happy event and an opportunity for us to celebrate the school's Welsh ethos.

In order to guarantee maximum attendance, we ask you to ensure that your child attends school on this day. As the second half is being played after 3pm, there is a warm welcome for you as parents to join your child at the school to watch the game. If you would like to do so, could you please inform the school beforehand at the email address below, noting your child's name and school year: cymruambyth@gartholwg.cymru.

We look forward to this exciting event and I would like to take this opportunity to thank you in advance for your cooperation.

Go Wales, go!

Yours sincerely

Mr Trystan Edwards
Headteacher